**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

**HYSBYSIAD CYHOEDDUS**

**ADRAN 123 (2A)**
**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**RHYBUDD O WAREDU MAN AGORED CYHOEDDUS**
**TIR GERLLAW SWYDDFEYDD BODLONDEB CONWY**

Rhoddir rhybudd drwy hyn, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 123 (2A), fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) yn bwriadu gwaredu ardal o dir sy'n fan agored cyhoeddus ar hyn o bryd ac yn gyfanswm o 1.04 hectar. Mae'r tir a effeithir yn ffurfio rhan o'r tir a elwir yn safle Swyddfeydd Bodlondeb, Ffordd Bangor, Conwy, LL32 8DU.

Bydd y tir a effeithir yn cael ei waredu ar ffurf prydles hir ac mae'n ffurfio rhan o ardal fwy i'w gwaredu, y cynigir ei defnyddio fel canolfan fusnes ac arloesi.

Mae copi o'r Hysbysiad ynghyd â chynllun yn dangos lleoliad y tir a effeithir (a ddangosir mewn glas yng Nghynllun 1) ar gael i'w harchwilio yn Swyddfeydd y Cyngor, Derbynfa Coed Pella, Bae Colwyn, Conwy LL30 9GN.

Gellir gweld y cynnig hefyd ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
www.conwy.gov.uk/swyddfeydd-bodlondeb

Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau i'r bwriad i waredu yn ysgrifenedig drwy eu cyfeirio at:

Prisiwr y Sir a Rheolwr Asedau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, Conwy LL30 9GN, neu drwy anfon neges e-bost at Bleddyn.Evans@conwy.gov.uk

Erbyn 4 Tachwedd 2024 fan bellaf.

Dyddiad: 2 Hydref 2024

Matthew Georgiou, Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy